CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR CYLLID
7.30pm 10 MEHEFIN 2021
DRWY LINC FIDEO

Cynhaliwyd y cyfarfod yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng. Tom Defis.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Tom Defis, Gareth John, Ken Lloyd a Matthew Thomas

Mr Alun Harries – Clerc y Cyngor Tref
Mrs Emma Smith - Dirprwy Glerc y Dref A Rheolwr Cyllid

41. Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22

Cynigiodd y Cyng. Gareth John y dylai'r Cyng. Tom Defis barhau fel Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021/22. Eiliodd y Cyng. Matthew Thomas y cynnig a **CHYTUNWYD** gan y pwyllgor.

42. **Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2021/22**

Cynigiodd y Cyng. Ken Lloyd y dylai'r Cyng. Gareth John barhau fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021/22. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Matthew Thomas a **CHYTUNWYD** gan y pwyllgor.

43. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Julia Ault, Ioan Matthews, Miriam Moules, Jeff Thomas a Wyn Thomas.

44. Datgan Buddiannau

Dim datganiadau.

45. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyllid

Dim materion yn codi.

46. Awdurdodi llofnodi'r Gorchymyn i Dalu'r Rhestr Cyfrifon ar gyfer Mai 2021 a Mehefin 2021

Cynigodd y Cynghorydd Ken Lloyd y dylai'r atodlenni taliadau am **£65425.58** ar gyfer Mai 2021 a **£47429.23** ar gyfer Mehefin 2021 gael eu cymeradwyo a'u harwyddo gan ddau aelod o'r Cyngor a'r Clerc Eiliodd y cynnig gan y Cynghorydd Matthew Thomas. Cytunodd yr aelodau a **PHENDERFYNWYD** y dylai'r taliadau cael eu talu.

47. Adroddiad Ariannol

Darparwyd adroddiad cyllid ar gyfer Ebrill 2021 i Fai 2021.

Balansau banc y Cyngor fel ar yr 31ain o Mai 2021 fel y ganlyn:

	£
HSBC Cyfrif Cyfredol	92,075.15
HSBC Cyfrif Cadw	368,581.45
Cyfanswm Arian yn y Banc	**460, 656.60**

Balansau Cyfrifon Eraill fel ar 31ain o Fai 2021:

Lwfans y Maer - £ 4765.64
Ras y Maer - £ 5846.06
Siop De Parc Caerfyrddin - £7741.55

- Cyfanswm y gwariant gros am y cyfnod 1af Ebrill hyd at 31 Mai oedd £ 74,599.48
- Cyfanswm yr incwm am yr un cyfnod, gan gynnwys Siop De'r Parc, oedd £ 12,673.95. Felly, y gwariant net cyffredinol yw £ 61,925.53.
- Gofyniad y Gyllideb / Praesept Net ar gyfer 2021/22 yw £ 779,264.55, a derbyniwyd £ 259,709.85 ohono. Bydd yr aelodau'n nodi o'r uchod bod y Cyngor o fewn y gyllideb ar 31 Mai.

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

48. Rhestr o'r Incwm Misol

NODWYD y rhestr**.**

49. Rhestr Dyledwyr

Hysbyswyd yr aelodau bod y dyledwr a nodwyd ar yr amserlen bellach wedi talu'r swm llawn sy'n ddyledus ac o'r herwydd nid oedd unrhyw ddyledwyr i'r Cyngor.

NODWYD yr adroddiad gan y pwyllgor.

50. Archwiliad Blynyddol 2021/21
Adroddodd y Clerc fod yr Archwilydd Mewnol wedi cwblhau ei waith a disgwylid y gwaith papur gan y cyfrifydd a fyddai'n galluogi cwblhad y Ffurflen Flynyddol gan y Cyngor ddiwedd mis Mehefin.

NODWYD y diweddariad gan y pwyllgor

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 y.h.